Cloch Dewi

Cyf 5: Rhif 4 **Gorffennaf 2019**

Pererindod 2019: "Pob un yn ei iaith ei hun"



Pererindod Eglwys Dewi Sant a ffrindiau i Goleg Sant Ioan Caergrawnt rhwng Gorffennaf 9-12. Mae ein dyled yn fawr i Gwynn a Mair Mathews, ac i'n ficer am sicrhau taith a phrofiad bythgofiadwy.

Rhagor o fanylion ar dudalennau 4-5.

Yn y rhifyn hwn

	Tud		Tud
Eglwys Newydd yr Hafod	2	Ymweliad â Christchurch Seland Newydd	6
Llythyr y Ficer	3	Pobl y Plwyf	7
Pererindod 2019	4/5	Leslie Evans	
		Arglwydd dysg i ni weddïo	8
		Dyddiadur EDS	8

Eglwys Dewi Sant Caerdydd

eglwysdewisant.org.uk

EglwysDewiSant

@eglwysdewisant

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd

Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

Offeiriad: Y Parchedig Rhian Linecar

Ffôn: 01446 760007

E-bost: rlinecar@gmail.com

Eglwys Newydd yr Hafod

Tua chanol yr 16fed ganrif prynodd cangen o deulu'r Herbertiaid les ar faenor (a fu'n eiddo, hyd 1539, i Fynachlog Ystrad Fflur), yn ardal Cwmystwyth, ym mlaenau dyffryn Ystwyth. Erbyn dechrau'r ganrif ganlynol roedd Morgan Herbert wedi sefydlu stad yno gyda phlasty Hafod Uchdryd yn ganolbwynt iddi.

Yn 1620 caniatawyd i Morgan Herbert i godi eglwys newydd, (Eglwys Newydd), ar ei stad,- addoldy cyfleus i'r teulu a thrigolion yr ardal a hefyd yn ymdrech i 'wareiddio' ychydig ar y mwynwyr yng ngwaith plwm Cwmystwyth! . Nid oes cofnod o unrhyw fath ar gael o adeilad yr eglwys honno, ar wahân i'r gofeb eithriadol brin a fu ar fur yr asgell ogleddol,- cofeb i Morgan Herbert, ŵyr y sylfaenydd, a fu farw yn 1687. Mae yn goffâd o gryn hyd ac yn y Gymraeg,- a hynny mewn oes pan fyddai cofebion y *bonedd* bron yn ddieithriad yn y Saesneg. Cymry Cymraeg oedd yr Herbertiaid ac yn hynod o falch o'u tras.

Gan nad oedd gan yr William Herbert olaf etifedd, roedd yr Herbertiaid wedi cilio o'r ardal erbyn dechrau'r 18 fed ganrif. Yn y cyfamser fe esgeuluswyd adeilad yr eglwys yn ddirfawr hyd nes i'r stad ddod, yn 1780, yn eiddo i'r enwog Thomas Johnes - mab Castell Crofft, ger Llwydlo. Adeiladwyd plasty newydd yn yr Hafod o gynllun Thomas Baldwin o Gaerfaddon, ac yn 1803 ail-adeiladwyd yr hen eglwys mewn dull Gothig o gynllun y pensaer enwog, James Wyatt. Ymhlith y trysorau a oedd ynddi roedd ffenestri o wydr lliw o Antwerp a llun allor gan Fuseli.

'*Tirfeddiannwr o'r tirfeddianwyr ac uchelwr o'r uchelwyr,'* oedd Thomas Johnes yn ôl y diweddar Athro Dafydd Jenkins yn ei gyfrol cofiant iddo,- sgweier arloesol, ysgolheigaidd ac ystyriol a greodd ei baradwys *picturesque* ym mynydd-dir Ceredigion. Bu farw yn 1816 ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Newydd yn y gladdgell a baratowyd ar gyfer Mariamne, eu hunig blentyn dawnus a fu farw yn 27 oed yn 1811. Gosodwyd cofgolofn farmor i Mariamne yn yr eglwys,- un o gampweithiau'r cerflunydd enwog, Sir Francis Chantrey. Bu'r cerflun cain hwnnw, o Mariamne orweddiog gyda'i thad a'i mam yn gwylio drosti, yn denu ymwelwyr i'r eglwys dros flynyddoedd lawer.

Yn ddiweddarach, bu ysgwieriaid eraill, megis Duc Newcastle a theulu'r Waddinghams yn hael eu gofal o'r eglwys,- a haelioni'r olaf yn fodd i godi ficerdy ac ysgoldy nid nepell o'r eglwys.

Margaret Lloyd Hughes

Fodd bynnag, ar fore Sul, 24 Ebrill, 1932, canfuwyd fod yr eglwys ar dân! (Roedd sustem wresogi yno.) Ymledodd y tân yn gyflym a chan nad oedd cyflenwad o ddŵr wrth law a'r frigâd dân agosaf 15 milltir i ffwrdd, nid oedd modd ei reoli. Llosgwyd y dodrefn, yr organ gain, a llawer o drysorau eraill ar waethaf ymdrechion dewr y ficer a'r gofalwr (fy nhad-cu), i achub yr hynny a fedrent cyn i'r to cyfan ddisgyn. Y fedyddfan yn unig oedd yn dal i sefyll yng nghorff yr eglwys,- mae yno hyd heddiw a'r pedwar cerflun ar ei gwaelod, (heb eu pennau!), yn portreadu y Prif Rinweddau: Pwyll, Cyfiawnder, Cymedroldeb, a Dewrder. Roedd cofgolofn Chantrey o'r neilltu ac yn lled ddiogel yn yr adain ddeheuol, ond camsyniad tyngedfennol ar ran y diffoddwyr tân oedd chwistrellu dŵr oer ar y marmor chwilboeth,- ac fe chwalodd yn deilchion!

Ymhen deunaw mis,- gydag arian insiwrans a haelioni'r gymuned,- gosodwyd to ar y difrod. Trawsnewidiwyd adfail yr hen eglwys gan gwmni enwog W.D. Caroe.

Dewiswyd dodrefn o dderw calchedig golau a cherfiwyd symbolau, (Canoloesol), ar dalcenni corau'r gangell ac fe'u dyluniwyd gan Caroe ei hun ac yntau hefyd a luniodd y sgrin gain o wydr sy'n diogelu gweddillion campwaith Chantrey. [Gwelir darnau o'r gwydr lliw, a achubwyd o'r llanast, yn y ddwy ffenestr sy naill ochr i'r allor.] Y cyfan a ail-godwyd, yn gyfuniad cynnil o waith Cymreig traddodiadol, gwaith Gothig ac arddull y Dadeni.

Heddiw, mae Eglwys Newydd yn un o'r *Llefydd Llonydd* ar lwybr twristiaeth Gogledd Ceredigion. Erbyn hyn, rhennir gweinidogaeth un offeiriad rhwng chwech o eglwysi gwasgaredig ond maent yn llwyddo i gadw perthynas glos â'i gilydd ar waethaf y boblogaeth denau a'r cynulleidfaoedd bychain a'r dwyieithrwydd. Mae'r ffyddloniaid yn hynod o frwdfrydig a gweithgar.

Gyda chydweithrediad yr ardalwyr, mae drws yr Eglwys Newydd yn agored am nifer o fisoedd y flwyddyn a nifer cyson o ymwelwyr yn troi i mewn,- llawer ohonynt yn cerdded amrywiol lwybrau'r stad sy wedi eu hadfer a'u cyferbwyntio. Gosodwyd sawl panel dwyieithog yng nghorff yr eglwys, - yn olrhain hanes yr eglwys a'r stad a'r gymuned leol, yn ogystal â sgrin gyffwrdd gyfrifiadurol yn cofnodi claddedigaethau'r plwyf. Gyda grant sylweddol llwyddwyd hefyd i ail-doi'r adeilad yr haf llynedd.

Yn nhawelwch y fynwent eang â'i chyfoeth cydnabyddedig o fywyd gwyllt, mae beddau cenedlaethau o gyn-drigolion yr ardal,- yn wrêng a bonedd; ymhlith y rhain cyfrifwyd yn agos i gant a hanner o fwynwyr plwm. ***(Parhad ar dudalen 7)***

Colofn y Ficer

Blwyddyn y Bererindod

Yng nghynhadledd yr Esgobaeth ar ddiwedd mis Medi eleni bydd yr esgob yn lansio "Blwyddyn y Bererindod 2020". Yn ôl ym mis Mai, fel rhan o'r gwaith paratoi, cafodd clerigion yr esgobaeth y fraint o fynd ar bererindod i un o gyrchfeydd pererindota hynaf ac enwocaf Ewrop, sef Santiago de Compostela yng Ngogledd Sbaen.

Yno, yn yr eglwys gadeiriol mae'r greirfa sydd, yn ôl traddodiad, yn dal esgyrn St Iago, un o apostolion Iesu. Ond yr hyn sy'n denu pobl yno o bob rhan o'r byd, ac o bob traddodiad Cristnogol gan gynnwys anffyddwyr, yw'r *Camino,* nid y greirfa, er bod honno yn bwysig i nifer o bererinion. Y *Camino* yw llwybr y pererinion i Santiago. Petai rhywun yn dymuno cerdded yr holl *Camino*, o'r man cychwyn traddodiadol yn Le Puy en Velay yn Ne Ffrainc, byddai'n cymryd deufis i gyrraedd Santiago.

Afraid dweud ein bod fel clerigion wedi hedfan o Gaerdydd i Santiago, a thra buom yno, cawsom y cyfle i gyd-addoli, cyd-astudio, cyd-fwyta a chyd-gerdded rhannau o'r *Camino* a chyfarfod â phererinion eraill. Un peth yw darllen a dysgu am bererindod, peth arall, wrth reswm, yw mynd ar bererindod a'i phrofi drosom ein hunain. Dyna oedd gwir werth y bererindod inni yn Santiago: y profiad o deithio, dysgu, rhannu a cherdded rhannau o'r *Camino*, tra'n cryfhau ein cymdeithas golegol fel clerigion, ac adnewyddu a dyfnhau ein ffydd bersonol. Teithio ar bererindod a'r profiadau a geir wrth deithio sy'n newid pererinion: newid y ffordd y maent yn gweld eu hunain, eu cyd-bererinion a'u perthynas â Duw.

Mae hanes hir i bererindota yn y ffydd Gristnogol, ac mae cyfnodau pan mae pererindota wedi bod yn fwy blaenllaw yn hanes yr eglwys. Roedd pererindota yn ei anterth yn ystod y Canol Oesoedd a daeth mannau a oedd yn gysylltiedig â'r Seintiau Celtaidd megis Tŷ Ddewi, Pennant Melangell, Ynys Enlli, Treffynnon a Phenrhys, i enwi ond ychydig, yn ganolfannau pererindod arwyddocaol yma yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, yr oedd Tŷ Ddewi mor bwysig, cyhoeddodd y Pab Callixtus II fod "dwy bererindod i Dŷ Ddewi yn gyfwerth ag un i Jerwsalem", ac fe dyrrodd y pererinion yno yn eu miloedd.

Ond daeth newid byd yn sgîl y Diwygiad Protestannaidd. Newidiodd y pwyslais. Nid teithio i fannau cysegredig i dderbyn rhyw ras neu yn y gobaith o ennill ffafr Duw oedd yn bwysig bellach i'r Cristion. Daeth y gair pererindod i olygu taith ysbrydol, fewnol yr unigolyn yn ei adnabyddiaeth bersonol o Dduw, wrth iddo deithio'n feunyddiol drwy'r bywyd hwn ar ei ffordd i'r nefoedd. Fe welwn ni y syniad yma yn cael ei fynegi'n glir yn y llyfr enwog *Taith y Pererin* gan John Bunyan a gyfieithwyd i'r Gymraeg yn 1688. Roedd yn llyfr hynod o ddylanwadol yma yng Nghymru, ac ynghyd â'r Beibl a Chanwyll y Cymry gan Rhys Prichard dyma'r llyfr oedd "ymron bob cartref Cymreig lle ceid llyfrau".

Erbyn heddiw, mae diddordeb mewn pererindota unwaith eto ar gynnydd. Mae'r syniad o deithio i fannau cysegredig, boed eglwysi cadeiriol, ffynhonnau, neu fannau sy'n gysylltiedig ag enwogion ac arloeswyr y ffydd, wedi cydio yn y dychymyg, ac yn ymateb i ryw angen ysbrydol yn yr oes hon. Dyna'r rheswm pam mae'r esgob wedi pennu 2020 yn Flwyddyn y Bererindod. Cawn ein gwahodd i ystyried ein pererindod ffydd fel unigolion ac fel eglwys, a gweld a phrofi drosom ein hunain y gwerth a'r budd ysbrydol sydd i bererindota.

Da gennyf ddweud bod EDS wedi achub y blaen ar hyn, ac ysgrifennaf yr erthygl hon ar ôl dychwelyd o'n pererindod fendithiol i Gaergrawnt ar drywydd cyfieithwyr y Beibl: William Tyndale a William Morgan, ac Edmwnd Prys, awdur y Salmau Cân. Yr wyf yn siŵr, bod pawb a fu'n rhan o'r bererindod hon yn gallu tystio i'r ffordd mae'r profiadau a gafwyd wrth bererindota wedi rhoi bendith, dealltwriaeth newydd ac adnewyddiad i'n ffydd yn Nuw trwy ei air ysbrydoledig yn yr Ysgrythurau.

Un o'r pethau sydd wedi aros yn fy nghof o'r darlithoedd yn Santiago, yw y darlithydd yn dweud wrthym, "nid oes un ffordd gywir o bererindota". Nid "sut" yr ydym yn teithio, na chwaith i "ba le", nac am "ba hyd" yr ydym yn teithio sy'n bwysig. Yr hyn sy'n bwysig wrth bererindota yw meddu ar yr ysbryd cywir, a theithio â chalon a meddwl agored yn barod i dderbyn yr hyn sydd gan ein cyd-bererinion a Duw, trwy ei lân Ysbryd, ei roi i ni er mwyn cryfhau ein ffydd a chyfoethogi ein bywydau. Yng ngeiriau enwog Catherine o Siena, "Yr holl daith i'r nefoedd, nefoedd yw".

Gyda phob bendith,

Dyfrig.

Gwahoddir deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Medi 20 2019

Cysylltwch â'r Golygydd - wyn@wynmears.com

Pererindod 2019



Gwynn yn egluro pwysigrwydd William Tindale wrth y pererinion—ger y gofeb iddo ar fryn uwchben pentref Gogledd Nibley yn Swydd Gaerloyw

Nenfwd trawiadol Eglwys Gadeiriol Ely

Ar drywydd W William Morgan a pob un â c Chaergrawnt, Protestannaidd Ysgrythurau i iaith

Cafwyd y fraint o weld a chyffwrdd â beibl Mary Jones. Gweler ei llofnod y tu fewn i'r cloriau.

Disgwyl amyneddgar am gymal nesaf y daith!

Coleg y Brenin Caergrawnt



Cawsom gyffwrdd â chyhoeddiad cynnar o'r Testament Newydd a gyfieithwyd gan William Tindale yn Antwerp

William Tyndale, ac Edmwnd Prys, chysylltiadau â y Diwygiad a chyfieithu'r y bobl.

Cofeb i Thomas Cranmer, Coleg yr Iesu



Dyfrig yn ein harwain mewn myfyrdod yng nghapel Mair, Eglwys Gadeiriol Ely

Ymweliad ag Eglwys Gadeiriol Christchurch,Seland Newydd Margaret Davies

Yn ystod ymweliad â'm nai yn Auckland, Seland Newydd ym mis Ionawr 2019, es ar wibdaith o amgylch Ynys y De, gan ymweld â Christchurch, Dunedin, Queenstown a Milford Sound.

Wrth ymweld â Christchurch roeddwn yn ymwybodol o'r difrod ofnadwy a achoswyd gan ddaeargrynfeydd 2011. Roedd sgaffaldiau yn cynnal llawer o adeiladau, ac adeiladau eraill yn y broses o gael eu hailgodi gyda chraeniau niferus o amgylch.

Roeddwn yn aros yn agos i Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd Christchurch, ac felly cefais sawl cyfle i weld yr adeilad o'r tu ôl i'r gwifrau uchel a gadwai'r cyhoedd draw. Roedd tu blaen yr adeilad wedi cwympo ac roedd yn bosibl edrych yn syth i mewn i gorff yr

eglwys, gyda'r gweddill yn edrych yn fregus iawn.

Adeilad trawiadol oedd yr eglwys gadeiriol a adeiladwyd rhwng 1864 a 1904, ond a ddifrodwyd drosodd a throsodd gan ddaeargrynfeydd ers 1881.

Roedd y tywydd yn heulog a chynnes ac roedd llawer o gyffro yn y ddinas, gyda rhai o'r siopau yn edrych yn union fel y prif strydoedd gartref. Gwnaeth yr olygfa i fi sylweddoli pa mor fach yw'r byd erbyn hyn! Roedd sgwâr yr Eglwys Gadeiriol yn brysur gyda llawer o stondinau marchnad ac ymwelwyr yn tynnu lluniau o'r eglwys a'r adeiladau cyfagos.

Yn dilyn y ddaeargryn ddiweddaraf ym mis Chwefror 2011, achoswyd difrod i feindwr yr eglwys a rhan uchaf y tŵr, a difrod sylweddol i weddill yr adeilad. O ganlyniad penderfynodd yr eglwys Anglicanaidd ddymchwel yr eglwys gyda'r bwriad o godi strwythur newydd yn ei lle, ond profodd y penderfyniad hwn yn ddadleuol yn Christchurch. Gwrthwynebwyd bwriadau'r eglwys gan nifer o gyrff, ac aethpwyd ag achos i'r Uchel Lys hyd yn oed.

Er i'r llys ddyfarnu o blaid yr eglwys gan fwyaf, ni ddymchwelwyd mwy o'r adeilad ar ôl i'r tŵr gael ei ddymchwel yn gynnar yn 2012. Erbyn 2015 mynegodd y Llywodraeth ei phryder am y diffyg gweithredu ac oedi, ac erbyn mis Medi 2015 apwyntiwyd person annibynnol i geisio cael cytundeb.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2015, yn dilyn trafodaethau ac adroddiad y trafodwr, cytunodd yr eglwys am y tro cyntaf i ystyried adfer yr hen eglwys gadeiriol.

O'r diwedd, yn Rhagfyr 2017 penderfynodd synod esgobaethol Christchurch i adfer eglwys gadeiriol Christchurch. Amcangyfrifwyd y cwblheid y prosiect o fewn 10 mlynedd. Yn y cyfamser adeiladwyd eglwys gadeiriol dros dro a fedyddiwyd yn eglwys gadeiriol 'cardfwrdd' pan gychwynnwyd ei hadeiladu ym mis Gorffennaf 2012.

Roedd y safle rhai strydoedd i ffwrdd o'r hen eglwys gadeiriol a bendithiwyd y safle ym mis Ebrill 2012. Y pensaer oedd Shigeru Ban, ac o'r diwedd, wedi peth oedi, cysegrwyd yr eglwys mewn gwasanaeth ar 15 Awst 2013, gyda seddau ar gyfer 700 person.

Defnyddiwyd tiwbiau o gardfwrdd, pren a dur wrth adeiladu'r eglwys a disgwylir iddi bara rhwng 20 a 30 mlynedd. Costiodd yr eglwys gardfwrdd 5 miliwn o ddoleri Seland Newydd, a'r dymuniad oedd y byddai'n dod â gobaith a chynnwrf i ddinas lle y teimlid ôl-gryniadau o hyd, ac y byddai'n ganolbwynt i addoliad Anglicanaidd wrth i drafodaethau barhau ynglŷn â sut i adnewyddu'r eglwys gadeiriol wreiddiol. Disgrifiwyd yr eglwys gadeiriol gardfwrdd fel adeilad rhad a diwastraff oedd yn caniatáu i fywyd yr eglwys barhau, a gobaith i gynyddu.

Adeiladwyd yr eglwys gadeiriol gardfwrdd o fewn pellter cerdded i'r eglwys wreiddiol. Yn ddiau roedd yn adeilad deniadol gyda llawer o ymwelwyr a gawsai groeso mawr gan y cyfarchwyr niferus oedd yn awyddus i rannu gwybodaeth am yr eglwys a'i hanes.

Roedd yn bendant yn adeilad trawiadol o'r tu allan ond hyd yn oed yn fwy trawiadol ar y tu fewn, yn llawn golau naturiol, mewn arddull minimalaidd, syml, gyda threfniadau blodau niferus o amgylch.

Dangosid lluniau du a gwyn ar y waliau o ddifrod daeargrynfeydd y gorffennol ar eglwys gadeiriol Christchurch. Roedd hyn yn ein hatgoffa o ddifrifoldeb y daeargrynfeydd diweddar a gwytnwch pobl Seland Newydd wrth iddynt ymgodymu â'r trychineb.

Bu'n ymweliad cofiadwy!

Pobl y Plwyf

Y Parch Leslie Evans

Brynmor Jones

1929 – 2019



Gyda thristwch y cyrhaeddodd y newyddion am farwolaeth Leslie Evans, cyn-ficer Eglwys Dewi Sant, a fu farw ar Ebrill yr ail ar hugain 2019, yn 90 oed. Cyn cael ei sefydlu yn ficer arnom 'nôl yn 1976, bu'n ficer Bettws Evan a Bryngwyn o 1960 hyd 1964, Burry Port a'r Pwll o 1964 hyd 1976, ac yna yn Dewi Sant hyd 1986. Yn ystod ei gyfnod yng Nghaerdydd bu'n gwasanaethu fel Dirprwy Gaplan yn y Carchar. Symudodd o Gaerdydd yn 1986 i ofalu am blwyfi Llanllwch gyda Llangain a Llangynog yn Esgobaeth Tyddewi o 1986 hyd 1995. Bu'n Ganon yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi o 1989 hyd 1990. Nac anghofiwn chwaith am ei briod Jennie, a'r modd y gweithient fel tîm (megis ag y gwnaeth eu rhagflaenwyr y Canon a Mrs Rosser, a George a Jean Noakes o'u blaenau). Rwy'n siwr bod cydymdeimlad a gweddiau holl aelodau Eglwys Dewi Sant wedi eu mynegu yn barod i Keith a Nesta, Dafydd a Bethan.

Ar nodyn personol: Wedi i Gill a minnau fethu cael plant ein hunain, fe wnaethom gais i fabwysiadu – proses hir a chymleth. Dau o'r tystion oedd gennym oedd Jean a George Noakes, ond erbyn i'r holl drefniadau cyfreithiol ddod i fwcwl 'roedd Jean a George wedi hwylio am y gorllewin – felly Leslie Evans a fedyddiodd Bethan – mae'r llun ohonom yn sefyll tu fas yr Eglwys yn cael lle anrhydeddus yn yr albwm!

Mair Matthews a enwodd y tedi yn gywir - Nedw! Diolch am rodd Ann Wyn Jones - bydd y cyfraniadau yn mynd tuag at gronfa creu tai bach newydd yn EDS

O'r archif!

Llun o gôr Eglwys Dewi Sant yn gynnar yn y chwedegau.

Mae dau sydd yn y llun yn parhau i fod yn aelodau o'r côr!

- Yr atebion: Delyth Davies a Wyn Mears! - ac mae Janet Davies yn parhau i fod yn aelod o gynulleidfa EDS

(Parhad o dud 2)

Yno hefyd, yn ôl ei ddymuniad, mae bedd George Guest, cyn-gorfeistr Coleg Sant Ioan, Caergrawnt.

Wrth draed y rhiw sy'n arwain at yr eglwys, roedd un o *lodges* y stad. Mae'r gatiau wedi hen ddiflannu, y tŷ wedi colli ei orchudd deiliog a'r holl amgylchedd wedi dirywio'n enbyd. Ganwyd tair cenhedlaeth o'm teulu yno; bu goriad i'r eglwys yn eu gofal am ganrif a bu eu gwasanaeth hwythau i'r eglwys yr un mor faith. Bu fy hen dad-cu, Thomas Lloyd, mwynwr diwylliedig, yn glochydd am 21 mlynedd (m. 1872); fy nhadcu, John Hughes, cipar y stad, yn ofalwr am dros 40 mlynedd,- yntau a'u frodyr yn ymddiddori mewn cerddoriaeth eglwysig ers yn llanciau. (Mae sawl llyfr o'u heiddo gen i,- yn eu mysg *Hyfforddiant Rhwydd i Ddysgu Darllen Cerddoriaeth* (J M Jones-1852). Bu 'nhad, un o seiri coed y stad, yn organydd am ryw ddeugain mlynedd (gyda chôr ar un adeg). Ni ddewisodd ddilyn ei chwaer i'r ysgol ramadeg, ond tra roedd yn brentis saer coed yn iard longau Aberystwyth (c. 1906-09), bu'n astudio cerddoriaeth yn nosbarth oedolion y cerddor, J T Rees a sefyll nifer o arholiadau. Derbyniodd hefyd wersi canu'r organ gan organydd a chôr-feistr Eglwys San Mihangel yn y dref.

Sonia George Borrow am ei ymweliad â'r eglwys yn Hydref 1854,: '*...A good-looking young woman...conducted me to the church ...'.* Fy hen fam-gu, Elizabeth Lloyd, oedd honno. Ymwelydd arall oedd George Enre Evans, awdur *Cardiganshire and its Antiquities* (1903). Daeth ei ymweliad i ben wrth fedd Thomas Lloyd, y clochydd, ac yn ei lyfr mae'n talu teyrnged hyfryd i'w dywysydd,- fy mam-gu,- Margaret (Lloyd) Hughes: '*If all the throng of visitors...who meet with the same courtesy from this man's daughter as has ere now been extended to me,...they find a church -keeper...delighted to show its beauties...and dilate on the surroundings of the house of Hafod.'* ,- hynny yn ei hail iaith, wrth gwrs.

[Yn ôl *Cymdeithas Hanes Teuluol, Dyfed,* mae fy nheulu innau (Y Lloydiaid), yn perthyn i deulu'r Herbertiaid, (Trefaldwyn mae'n debyg), - yn yr un modd ag y mae teulu Gwyneth Lewis!]

Arglwydd dysg i'n weddïo

Dduw ein hamdden, ti a drefnaist bob tymor yn ei bryd
ac a roddaist amser i bob amcan dan y nefoedd:
amser i blannu ac amser i dynnu y peth a blannwyd,
amser i weithio ac amser i ymlacio.
Fel y bu i'th fab Iesu Grist ymgilio o brysurdeb bywyd
ac o ddwndwr byd i geisio dy bresenoldeb di ac adennill ei nerth:
yn yr un modd cynorthwya ni dros wyliau'r haf hwn i ymgilio,
llaesu ein dwylo, hamddena ac ymlacio heb deimlo'n euog,
fel y gallwn ninnau adennill ein nerth ac adnewyddu ein buchedd yn dy gariad di
yn barod i ymgymryd â'r gwaith yr wyt ti wedi ei osod ar ein cyfer,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Gwasanaethau'r Sul

8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Gwasanaeth Teuluol (Ail Sul y mis)
Y Foreol Weddi a Phregeth
(Sul ola'r mis)
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Cymun Bendigaid gydag emynau

Dyddiadur yr Eglwys

Mis Awst

Gwasanaethau fel arfer yn ystod mis Awst

Mis Medi

6 Nos Wener
Datganiad Organ (Organ Fest) gan Gerard Brooks, llywydd Coleg Brenhinol Organyddion am 7.30pm

9 Nos Lun
Is-bwyllgor Cenhadu a Bugeilio am 7.30pm

8 Dydd Sul
Gwasanaeth Teuluol am 10.30am a Helfa Drysor a Phicnic i ddilyn

16 Nos Lun
Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo am 7.30

20 Dydd Gwener
Datganiad Organ gan Elin Rees, Eglwys y Plwyf Bury am 1.15pm

21 Dydd Sadwrn
Coffi a Chlonc am 10.30am

22 Dydd Sul
Y Cymun Bendigaid gyda Cherddoriaeth Taizé 6.00pm

23 Nos Lun
Cyngor Plwyfol Eglwysig am 7.30pm

26 Dydd Iau
Ymweliad â Synagog Unedig Caerdydd (Ymweliad Bore)

29 Dydd Sul
Diolchgarwch am y Cynhaeaf am 10.30am a chinio i ddilyn

Mis Hydref

13 Dydd Sul
Gwasanaeth Teuluol am 10.30am

19 Dydd Sadwrn
Coffi a Chlonc am 10.30am

31 Nos Iau
Cymdeithas yr Eglwys 7.30pm